CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed IONAWR 2019

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J E Lewis, J Evans, E W Roberts, D T Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng E D Owen, E Williams R M Roberts, Cyng Sirol Mrs N Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 18ed RHAGFYR 2018 YN GYWIR Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng J Evans

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Pwyllgor Cyhoeddus Ganolfan Bodffordd. Mae ychydig bethau i edrych i fewn iddynt cyn cael cyfarfod. Rhoi ar Agenda Mis Chwefror.

Adolygu Cyflog y Clerc. Y Clerc yn dymuno i`w adael fel ac y mae am flwyddyn arall. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng E W Roberts i dderbyn ac yn diolch.

Praesept 2019 / 2020. Band D 414.40.
Y Clerc yn cyflwyno amcangyfrif i`r Cynghorwyr. Gyda o gwmpas £2,000.00 i £3,000.00 mewn llaw. Cafwyd cynyddiad llynedd.
Mae £1,000.00 wedi ei glustnodi tuag at Neuadd Goffa Bodwrog am 2019 / 20 os bydd ei angen.
Mae gwaith i`w wneud yn y Fynwent Gymunedol. Felly bydd rhaid cael mwy o arian. Ni fydd ychwanegiad i Gyflog y Clerc.
Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R R Roberts i gael £2,000.00 yn ychwanegol.
Gofyn am £10,450.00. Derbyn yn unfrydol.

Mynwent Gymunedol Bodffordd. Mae angen gwaith ar y Fynwent, efallai i`w thorri i fynnu ai llwybro. Bydd pwyllgor y fynwent yn cyfarfod a cael plan ac adrodd yn ol i`r Cyngor. Beth sydd yn digwydd i`r coed?
Pasiwyd i gael Cyfrif Ariannol arwahan i`r Fynwent. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng J Evans.

Sedd Wag. Ward Heneglwys. Cafwyd cais gan Mr Robert Parry. Bryn Maelog, Bodffordd. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng R R Roberts i`w gyfethol. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

Cynllun Cynllunio Treflys, Tynlon. Nid oes ymateb esboniadwy wedi ei gael. Mae y Cyngor yn awyddus o gael ffeithiau. Y Clerc i gysylltu a`r Cyng Sirol Mrs N Roberts a B Parry.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL2018/50. Cais llawn ar gyfer gosod 3 portacabin drost dro ynghyd a gosod goleudau a fensio yn:-
   Plot 5B, Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng R R Roberts.

2. Yr Arolygiaeth Gynllunio.
Cais gan Horizon Niwclear Power am orchymyn thoi caniatad datblygu ar gyfer y prosiect Gorsaf Bwer Niwclear Wylfa Newydd.
Cais am wybodaeth bellach gan bob parti a buddiant a newidiadau`r i`r amserlen.
Derbyn.

PENDERFYNIADAU:
3. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
4. Rheolwr Rhaglen Adran Trawsnewid.
Llythyr penderfyniad am ysgol Gynradd newydd. Derbyn.

GOHEBIAETH (ARALL)
5. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

6. Mon Grass Cutting Service. Y pris i fod yn un fath am dymor arall. (£675.00.)
Derbyn Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng D T Roberts.

7. Un Llais Cymru. Pwyllgor Ardal Ynys Mon. Nos Iau 17.1.18. Llangefni. Neb yn medru mynychu.

RHODDION.
8. Dim.

PLWYFOL.
9. Gofyn am Cysgodfan Bws wrth Gilfach, Llandrygarn. Yn anffodus nid ydyw yn bosib. Y Cyngor Sir a`r Cwmni Bws wedi ei wrthod o`r blaen.

10. Anfon unwaith yn rhagor i Adran Dosbarthu y Post Brenhinol (Llangefni) i edrych o`r posibilrwydd cael y llythyrau yn gynt yn Pentref Llynfaes. Ambell i ddiwrnod ddim yn cyrraedd tan 4 y prynhawn. Ail drefnu y rownd.

TALIADAU:
11. Clerc £220.83.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng E W Roberts.